# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

*Mesur a dehongli*

### 53 Dehongliad cyffredinol o'r Rhan hon

Yn y Rhan hon—

ystyr "allyriadau" ("*emissions*") mewn perthynas â nwy tŷ gwydr, yw allyriadau o'r nwy hwnnw i'r atmosffer sydd i'w priodoli i weithgarwch pobl;

mae i "allyriadau Cymru" ("*Welsh emissions*") yr ystyr a roddir gan adran 34(2);

mae i "allyriadau net Cymru" ("*net Welsh emissions*") yr ystyr a roddir gan adran 34(1);

mae i "arferion rhyngwladol adrodd ar garbon" ("*international carbon reporting practice*") yr ystyr a roddir gan adran 52;

mae i "blwyddyn darged interim" ("*interim target year*") yr ystyr a roddir gan adran 30(3);

mae "corff cynghori" ("*advisory body*") i'w ddehongli yn unol ag adran 44;

mae i "cyfnod cyllidebol" ("*budgetary period*") yr ystyr a roddir gan adran 31(3);

ystyr "cyfreithiau'r UE" ("*EU law*") yw—

(a) yr holl hawliau, pwerau, rhwymedigaethau, ymrwymiadau a chyfyngiadau a grëir gan Gytuniadau'r UE neu sy'n codi oddi tanynt o dro i dro, a

(b) yr holl rwymedïau a gweithdrefnau y darperir ar eu cyfer gan Gytuniadau'r UE neu oddi tanynt o dro i dro;

mae i "cyfrif allyriadau net Cymru" ("*net Welsh emissions account*") yr ystyr a roddir gan adran 33;

mae i "cyllideb garbon" ("*carbon budget*") yr ystyr a roddir gan adran 31(1);

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 53 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 31 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

mae i "echdyniadau Cymru" ("*Welsh removals*") yr ystyr a roddir gan adran 34(3);

mae i "gwaelodlin" ("*baseline*") yr ystyr a roddir gan adran 38;

mae i "nwy tŷ gwydr" ("*greenhouse gas*") yr ystyr a roddir gan adran 37;

mae i "targed allyriadau 2050" ("*2050 emissions target*") yr ystyr a roddir gan adran 29;

mae i "targed allyriadau interim" ("*interim emissions target*") yr ystyr a roddir gan adran 30(1);

mae i "uned garbon" ("*carbon unit*") yr ystyr a roddir gan adran 36(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 53 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 53 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 31 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(a)
- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(b)